

Crynodeb Gwirio Ansawdd Y Feddygfa, Gogledd Corneli Dyddiad y gweithgarwch: 5 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o'r Feddygfa, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae gan Y Feddygfa, Gogledd Corneli feddygfa gangen ym Mynydd Cynffig hefyd. Mae'r Feddygfa, Gogledd Corneli yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad ag un o'r Partneriaid Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis ar 5 Awst 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gall y practis gael gfael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall cleifion gael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran yr amgylchedd a threfnu apwyntiadau?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt

ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?

- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- archwiliadau / asesiadau risg amgylcheddol
- sesiynau briffio i'r staff ar COVID-19
- gweithdrefnau brysbennu ar gyfer y meddygon teulu / nyrsys
- gweithdrefnau ymweliadau â chartrefi
- ffurflen enwebu fferyllydd
- Asesiad risg staff ar gyfer COVID-19.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod asesiad risg COVID-19 wedi'i gynnal, a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, diogelwch, taith y claf ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r sawl a oedd yn ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis wedi'i asesu er mwyn helpu a gwella trefniadau rheoli heintiau ar ddechrau pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod rhai ardaloedd o'r practis wedi'u hadnewyddu hefyd. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- rhoddwyd gweithdrefnau desg glir ar waith a symudwyd unrhyw eitemau diangen
- tynnwyd y carpedi a gosodwyd finyl yn eu lle

-
- gorchuddiwyd y cadeiriau â deunydd y gellir ei lanhau
 - addurnwyd y waliau gan ddefnyddio paent gwrthfeicrobaidd arbennig¹
 - symudwyd eitemau diangen, megis teganau a chadeiriau, o'r ardal aros
 - Gosodwyd sgrin persbecs yn y dderbynfa
 - arwyddion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu harddangos
 - gorsafoedd cyfarpar diogelu personol (PPE) dynodedig
 - gosodwyd system intercom yn y brif fynedfa.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Trefnodd y practis i'r cleifion gael ymgynghoriadau dros y ffôn. Staff y dderbynfa fyddai'n delio â'r galwadau a meddyg teulu fyddai'n eu brysbennu. Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn mynd i'r practis drwy apwyntiad ymlaen llaw ac yn gorfod aros yn eu car hyd nes iddynt gael eu galw. Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion ymhellach wrth gyrraedd y practis, dywedwyd wrthym fod system intercom wedi'i gosod ger y brif fynedfa er mwyn i'r staff a'r cleifion gyfathrebu â'i gilydd heb fod angen i'r cleifion fynd i mewn i'r adeilad yn gorfforol. Er mwyn lleihau'r mynd a'r dod yn y practis ymhellach, dywedwyd wrthym ei fod yn cadw ffenestr ar agor wrth ochr yr adeilad er mwyn i'r staff siarad â'r cleifion a'u cynorthwyo. Roedd y practis hefyd yn trefnu i bresgripsiynau gael eu hanfon yn uniongyrchol i'r fferyllfeydd a nodwyd gan y cleifion.

Mae'r practis wedi annog cleifion i ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein² er mwyn trefnu apwyntiadau a/neu archebu amlbresgripsiynau. Dywedwyd wrthym fod ffonau siarad ar gael i'r staff gyfathrebu â chleifion sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog a bod gan y practis ddau feddyg teulu sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n gallu cyfathrebu â'u cleifion yn ddwyieithog.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael asesiad risg COVID-19 er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw addasiadau yr oedd angen eu gwneud i'r arferion gweithio.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal a bod ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym y bydd y meddygon teulu yn dilyn gweithdrefnau'r cartref gofal wrth fynd i mewn. Gwelsom hefyd fod gan y practis weithdrefnau ar waith ar gyfer unrhyw glinigwyr sy'n ymweld â'r cartref.

¹ Mae **paent gwrthfeicrobaidd** yn cynnwys ychwanegion sy'n gwneud i'r arwyneb **wedi'i baentio** wrthsefyll meicrobau, megis ffwng, feirysau a bacteria.

² Prosiect cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella gofal cleifion yw Fy Iechyd Ar-lein. Mae'n galluogi cleifion i gyflawni rhai tasgau iechyd yn ddiogel ar y we

Canmolodd y Partner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- polisiau rheoli heintiau cyffredinol ac asesiad yn benodol ar gyfer COVID-19
- yr archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau
- amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nodwyd bod y tîm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy e-bost ac yn ystod cyfarfodydd tîm, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau ac archwiliad glanhau wedi cael eu cwblhau yn ddiweddar. Cadarnhaodd Rheolwr y practis hefyd fod mwy o lanhau wedi cael ei drefnu a bod glanhawr ychwanegol wedi'i gyflogi. Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Rhoddwyd gwybodaeth i ni am hyfforddiant rheoli heintiau a ddangosodd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gael.

Nodwyd bod pob aelod o'r staff anghlinigol wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell arbennig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen, a bod system un ffordd ar waith.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod polisi cyffredinol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisi yn cynnwys manylion yr arweinydd rheoli heintiau, gofynion hyfforddiant y staff, ac nid oedd y polisi yn cynnwys rhif y fersiwn. Rydym yn argymhell bod Rheolwr y Practis yn adolygu ac yn diweddarau'r polisi yn unol â'r canllawiau diweddaraf, gan sicrhau ei fod yn cynnwys rhif y fersiwn.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- sesiynau briffio i'r staff ar COVID-19
- cyfarfod tîm ymarfer
- cynllun parhad busnes
- llawlyfr hyfforddiant i'r staff
- cylchlythyr tymor y fflw

Roedd Rheolwr y Practis yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod gwaith cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i effaith COVID-19.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes a adolygwyd yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel y cleifion yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, canmolodd y Partner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis staff y practis yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd Clwstwr³ rheolaidd wedi parhau yn ystod y pandemig.

³ Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae un o'r meddygon teulu a Rheolwr y Practis yn eu mynychu.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Dywedwyd wrthym nad oes gan y practis unrhyw broblemau o ran defnyddio gwasanaethau y tu allan i oriau, a bod ganddo ryngwyneb a threfniadau rhannu gwybodaeth da ar waith, yn benodol mewn perthynas â gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Fodd bynnag, cawsom wybod bod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd wedi cynyddu yn ystod y pandemig sydd wedi rhoi llawer mwy o bwysau ar y practis. Dywedwyd wrthym hefyd bod disgwyl i'r practis gynnal profion gwaed ac arsylwadau rheolaidd cyn unrhyw glinigau gofal eilaidd. Byddai'r profion gwaed a'r arsylwadau rheolaidd hyn yn cael eu cynnal gan staff yn y gwasanaethau gofal eilaidd wrth weld y claf wyneb yn wyneb.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yn eu cymuned ac wedi llwyddo i roi dros 5,500 o frechlynnau. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis, yn ystod yr ymgyrch brechu rhag y ffliw yn 2020/21, wedi sicrhau cynnydd, o 65% i 74%, ar gyfer pobl dros 65 oed.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Y Feddygfa, Gogledd Corneli

Dyddiad y gweithgarwch: 5 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rydym yn argymhell bod Rheolwr y Practis yn adolygu ac yn diweddarau'r polisi yn unol â'r canllawiau diweddaraf, gan sicrhau ei fod yn cynnwys rhif y fersiwn.	Safonau lechyd a Gofal Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<ul style="list-style-type: none">Adolygu'r Polisi Atal a Rheoli Heintiau Presennol.Safon lechyd a Gofal 2.4 wedi'i darllen a'i hystyried.Mae'r polisi presennol wedi cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau i gynnwys rhagor o fanylion am hylendid, manylion am gleifion/ymwelwyr â'r practis, PPE, a Gofynion Hyfforddiant y Staff.Dylid cofnodi manylion y fersiwn ar y polisi dan sylwDylid cynnwys manylion Arweinydd y Polisi yn y polisi a'r dyddiad adolygu a bennir. Rhaid cynnwys manylion am atal a rheoli	Matthew Haynes	21 Awst 2021

		heintiau mewn disgrifiadau swydd pan fydd y staff clinigol yn cael eu recriwtio, a rhoi hyfforddiant priodol	
--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Matthew Haynes

Dyddiad: 25 Awst 2021